

## Cegin cardfwrdd

Yn hytrach na'u hailgylchu nhw, beth am wneud defnydd o'ch bocsys cardfwrdd?

### Byddwch angen:

- Bocsys cardfwrdd
- Pinau lliwio/paent crefft
- Siswrn/cyllell grefft
- Efallai y gallwch chi ychwanegu pethau eraill fel papur, platau, powlen blastig, tiwbiau cardbord, papur lliw, ac ati

### Gwneud popty:

- Ar eich bocsys, tynnwch lun y cylchoedd ar dop y popty (neu defnyddiwch blatiau papur)
- Ar flaen y bocsys, tynnwch lun drws y popty

# DYSGU DRWY CHWARAE - Cegin cardfwrdd

- Torrwch i lawr yr ochr chwith, ar hyd y top ac i lawr ochr dde a phlygu hwn i wneud drws sy'n agor a chau
- Beth am ddefnyddio mwy o gardfwrdd a gwneud silffoedd y tu mewn i'r popty?

## Gwneud uned sinc:

- Tynnwch lun cylch ar dop y blwch (ychydig yn llai na'r bowlen) fel y gall y ddysgl eistedd ar dop y blwch
- Gwnewch lun o fwrdd draenio ger y ddysgl
- Tynnwch lun drws ar flaen eich cwpwrdd
- Torrwch ar hyd y top, i lawr y canol ac ar hyd gwaelod eich drysau a'u plygu i'r ochr
- Beth am geisio creu tap cardbord?

## Gwneud peiriant golchi dillad:

- Tynnwch lun cylch yng nghanol y blwch ac ychwanegwch ddeialon ar hyd y top fel eich peiriant golchi dillad

- Torrwch o amgylch y rhan fwyaf o'r cylch a phlygu hwn i un ochr i wneud y drws

## Manteision y gweithgaredd hwn:

- Bydd yn annog eich plentyn i arbrofi a chwarae sefyllfaoedd pob dydd
- Bydd yn helpu eich plentyn i ddeall rhai sefyllfaoedd pob dydd yn y cartref
- Siaradwch am aildefnyddio ac ailgylchu



### **RHYBUDD:**

Mae angen goruchwyliaeth ofalus wrth ddefnyddio siswrn a glud!